TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Foundation Degree Creative Industries: Popular Music Technology (Music Performance pathway)

Yn gryno

Mae dau lwybr ar y cwrs hwn a gallwch ddewis rhwng Perfformio Cerddoriaeth a Chynhyrchu Cerddoriaeth.

Perfformio Cerddoriaeth - Mae hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n chwarae offeryn ac sydd eisiau chwarae mewn band.

Cynhyrchu Cerddoriaeth - Mae hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n awyddus i ganolbwyntio mwy ar gynhyrchu cerddoriaeth.

Byddwch yn dysgu am bob agwedd ar y diwydiant cerddoriaeth, o gyfansoddi ac ysgrifennu caneuon i raglenni meddalwedd cerddoriaeth, technegau recordio byw, perfformio cerddoriaeth a rheoli sain fyw.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Mae gennych ddiddordeb brwd mewn cerddoriaeth boblogaidd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... Rydych eisiau cwrs ymarferol er mwyn ennill profiad

... Rydych eisiau cyfuniad o sgiliau ymarferol a dealltwriaeth ddamcaniaethol

... Rydych eisiau creu cerddoriaeth naill ai wrth ddefnyddio offerynnau neu dechnoleg

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn cael eich addysgu gan arbenigwyr profiadol, yn ymgymryd â phrosiectau go iawn ac yn cymryd rhan mewn gweithdai gydag artistiaid gwadd. Mae lleoliadau seiliedig ar waith yn elfen bwysig o'r ail flwyddyn, ac yn eich galluogi i ennill profiadau go iawn a gwneud cysylltiadau gwerthfawr yn y diwydiant.

Yn ogystal â dysgu am dechnegau perfformio a meddalwedd, byddwch yn cael cyfle i astudio meysydd arbenigol, megis sain fyw, recordio, ysgrifennu caneuon, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth. Byddwch hefyd yn dysgu am y diwydiant cerddoriaeth, ei hanes, ei ddulliau a'i berfformiadau, gan gaffael sgiliau ymarfer proffesiynol ar yr un pryd.

Bydd y ddau lwybr yn astudio'r modiwlau canlynol:

Peirianneg Stiwdio Recordio
Prosiect Cynhyrchu
Sain yn Seiliedig ar Gyfrifiadur
Cyfansoddi gyda Thechnoleg Cerdd

Bydd Perfformio Cerddoriaeth hefyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

Geiriau a Cherddoriaeth: Diwylliant, Cyd-destun a Beirniadaeth
Gweithdy Perfformio'n Fyw

Bydd Cynhyrchu Cerddoriaeth hefyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

Hanfodion Peirianneg Sain
Sgiliau Cynhyrchu Cerddoriaeth

Os ydych yn ansicr o ba lwybr sydd fwyaf addas ar eich cyfer chi, yna gallwn drafod hyn gyda chi.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Fel arfer, byddai'n rhaid i chi fod ag o leiaf un o'r canlynol:

48 pwyntiau UCAS - cyfrifiannell tariff UCAS
https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator
Mynediad i AU lle rydych chi wedi cyflawni Diploma Llwyddo gyda 45 Pas.

Hefyd: Llwyddo mewn tri phwnc TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth).

Sylwch, os nad ydych yn cwrdd â'r meini prawf gradd, yna efallai gellir ystyried oedran a phrofiad.

Mae'n bosibl y gofynnir i ymgeiswyr fynychu cyfweliad, cymryd rhan mewn sesiwn gweithdy, neu gyflwyno portffolio o waith fel rhan o'r broses ddethol.

Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y cwrs yma yn eich darparu gyda'r wybodaeth, profiad a hyder i weithio yn y diwydiant cerddoriaeth. Fel arall, fe allech benderfynu symud ymlaen i raglen radd berthnasol. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r Radd Sylfaen yn llwyddiannus yn gymwys i symud ymlaen i flwyddyn olaf y BA (Anrh) Technoleg Cerddoriaeth Boblogaidd ar Gampws Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Breinir y cwrs yma gan Brifysgol De Cymru.

Y cod UCAS yw: WJ39

Cod y sefydliad: W01

Cod y campws: G

Gallwch wneud cais uniongyrchol i'r coleg neu trwy UCAS ar gyfer y cwrs yma.